Hunter Healthcare

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth






**HYGYRCHEDD:**
**Mae'r pecyn briffio ar gael mewn fformatau eraill ar gais, megis braille neu brint bras. Cysylltwch â Helen Howard yn hhoward@hunter-healthcare.com**

# Cadeirydd

## Pecyn ymgeisydd

Dyddiad cau 09:00 ar 25 Tachwedd 2024

# Croeso

## Trawsnewid ein diwylliant a gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio

**Diolch am ddangos diddordeb mewn arwain ein Cyngor.**

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon. Mae'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio yn effeithio ar fywydau pawb yn y DU.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, ac rydym yn sicrhau ansawdd eu haddysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol – a elwir yn 'addasrwydd i ymarfer'.

Mae'r NMC ar drobwynt, ac ni fu erioed foment bwysicach i arweinydd sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n cael ei lywio gan bwrpas wneud gwahaniaeth trawsnewidiol i'r sefydliad a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Ym mis Ionawr 2024 fe wnaethom gomisiynu **adolygiad annibynnol o'n diwylliant** ac ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd y **canlyniadau**. Er bod y tîm adolygu wedi canmol y llu o staff ymroddedig, ysgogol a hynod alluog y daethant ar eu traws, canfuwyd methiannau difrifol yn ein diwylliant, gan gynnwys profiadau o hiliaeth a mathau eraill o wahaniaethu, yn ogystal â bwlio, aflonyddu ac ofn siarad.

Roedd yr adolygiad yn glir ynghylch y cysylltiad rhwng ein diwylliant a pherfformiad rheoleiddio. Mae pobl sydd wedi bod yn aros yn llawer rhy hir am benderfyniadau ar achosion addasrwydd i ymarfer y maent yn ymwneud â nhw. Ac nid ydym bob amser wedi nodi anghenion diogelu neu les pobl mewn amgylchiadau anodd neu fregus.

Nod ein cynllun addasrwydd i ymarfer yw gwella diogelwch ac ansawdd profiadau pobl o'n prosesau – cofrestreion a'r rhai sy'n gwneud cwynion.



Ochr yn ochr â hyn rydym yn gweithio i gryfhau ein dull diogelu. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai dim ond os yw ein cydweithwyr yn gweithio mewn amgylchedd cynhwysol, diogel sy'n eu galluogi i roi o'u gorau y gallwn ni gyflawni gwelliannau mewn ffordd gynaliadwy.

Rydym eisoes wedi dechrau gosod y sylfaen ar gyfer newid cadarnhaol, ac rydym yn awr yn chwilio am Gadeirydd newydd i'n harwain drwy raglen drawsnewid aml-flwyddyn ar gyfer ein diwylliant a'n gwaith rheoleiddio. Bydd hyn yn golygu darparu arweiniad gweladwy a hygyrch; arwain, herio a dwyn y weithrediaeth i gyfrif; a bod yn atebol am gyflawni'r argymhellion o'r adolygiad diwylliant annibynnol. Bydd hefyd yn golygu sicrhau bod yr NMC yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio yn effeithiol ar draws y DU.

Gallwch weld disgrifiad rôl llawn ar dudalennau 10-15 y pecyn hwn. Rydym yn chwilio am uwch arweinydd rhagorol a fydd yn sicrhau bod yr NMC yn deg ac yn gynhwysol yn ei waith. Bydd gennych ymrwymiad amlwg i – a hanes o hyrwyddo – cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, o fewn diwylliannau mewnol ac mewn effaith sefydliadol allanol. Rhaid i chi ddod â dealltwriaeth ddofn o drawsnewid diwylliannol/datblygiad sefydliadol, ynghyd â phrofiad o arwain a goruchwylio darpariaeth mewn sefydliadau cymhleth. A bydd angen i chi fod yn angerddol dros wella iechyd a gofal er budd pobl a chymunedau ym mhobman.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Cyngor sydd mor gynhwysol â phosibl yn ei holl drafodaethau a phenderfyniadau strategol. Mae hefyd yn bwysig bod yr aelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio a'r cyhoedd rydym yma i'w hamddiffyn. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir o gefndiroedd, profiadau a ffyrdd o fyw amrywiol.

Nid yw rôl Cadeirydd y Cyngor byth yn un hawdd. Mae'n fwy heriol fyth ar adeg fel hon, pan yw ymddiriedaeth a hyder mewnol ac allanol yn yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud yn isel. Ond mae hyn hefyd yn gyfle i greu etifeddiaeth o newid cadarnhaol a pharhaol, gyda budd enfawr i bobl, partneriaid, proffesiynau a'r cyhoedd yr NMC.

Os oes gennych y rhinweddau, yr ymrwymiad a'r arbenigedd sydd eu hangen arnom, rydym yn gobeithio y byddwch am ymuno â ni.

**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**
Hydref 2024

# Yngl ŷn â ni

## Rydym yn gorff cyhoeddus statudol sy'n atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn. Rydym hefyd yn Elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) (SC038362).

## Ein rôl

Mae ein hamcanion statudol, sydd hefyd yn amcanion elusennol, wedi'u nodi yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd). Ein hamcan trosfwaol yw **diogelu'r cyhoedd** drwy:

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

### Llunio'r dyfodol

Cafodd ein **Strategaeth 2020-2025** ei chynhyrchu ar y cyd â'r cyhoedd, y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio a'n partneriaid ac mae'n seiliedig ar dair thema allweddol: Rheoleiddio, Cefnogi, Dylanwadu.

Mae'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol ac yn helpu i ymgorffori newid cynaliadwy yn y sefydliad.



## Sut rydym yn rheoleiddio

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch gweithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u hymgysylltu a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

RHEOLEIDDIO | CEFNOGI | DYLANWADU

# Y Cyngor

## Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC. Mae'n gosod y cyfeiriad strategol, yn gwneud penderfyniadau allweddol, ac yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif.

Aelodau'r Cyngor yw'r ymddiriedolwyr elusen ac maent yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr NMC yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu budd cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn cynnwys deuddeg aelod: chwe pherson lleyg a chwe gweithiwr proffesiynol ar ein cofrestr, pob un wedi'i benodi gan y Cyfrin Gyngor.

Mae gennym hefyd gynllun Cyswllt sy'n anelu at ddarparu cyfleoedd datblygu i'r rhai sydd â photensial yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am ein Cydymaith presennol ar gael **yma**. Disgwylir i'r Cadeirydd, aelodau'r Cyngor a Swyddogion Cyswllt arddangos ein gwerthoedd a chynnal **Cod Ymddygiad y Cyngor** yn seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('egwyddorion Nolan').

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, gan gynnal cyfarfodydd cyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Cyngor yn gweithio a'i aelodaeth bresennol ar gael **yma**.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn atebol i'r Cyngor. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm Gweithredol sy'n gyfrifol am redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae rhagor o wybodaeth am ein tîm Gweithredol ar gael **yma**.

### Newidiadau i'r Cyngor yn y dyfodol

Mae'r pedair llywodraeth wedi ymrwymo i wneud newidiadau i'n deddfwriaeth a fydd yn golygu bod y Cyngor yn pontio o'r aelodaeth Anweithredol gyflawn bresennol i gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau Anweithredol a Gweithredol (model bwrdd unedol). Yn seiliedig ar yr amserlen bresennol, mae'r newid hwn yn debygol o ddigwydd ddiwedd 2025 neu ddechrau 2026.




## Statws elusennol

Fel elusen gofrestredig, rhaid i ni geisio sicrhau bod ein holl waith yn darparu budd cyhoeddus. Fel ymddiriedolwyr yr elusen, aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud hyn.

Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban wrth wneud penderfyniadau a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion adrodd statudol, gan gynnwys adrodd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith a'n cynlluniau diweddar ar gael yn y canlynol:

- **Strategaeth 2020-25**
- **Ein gwerthoedd a'n hymddygiad**
- **Cynllun corfforaethol 2024-26**
- **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24**
- **Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol 2023-24**

# Ein cofrestr mewn niferoedd

### Ar 31 Mawrth 2024 roedd:

**765,051** Nyrsys

**44,125** o Fydwragedd

**6,361** wedi'u cofrestru'n ddeuol

**10,881** o gymdeithion nyrsio

# Ein gwerthoedd a’n hymddygiad au

Yr un mor bwysig â’r hyn a wnawn yw sut rydym yn ei wneud, felly mae ein gwerthoedd a’n hymddygiadau’n pennu’r ffordd rydym yn gweithio.

## Rydym yn deg

Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth wraidd ein rôl fel rheolydd a chyflogwr tryloyw y gellir ymddiried ynddo.

## Rydym yn garedig

Rydym yn ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy’n gwerthfawrogi pobl, eu dirnadaeth, eu sefyllfaoedd a’u profiadau.

## Rydym yn gydweithredol

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn a thu allan i’r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan ydym yn gweithio’n dda gydag eraill.

## Rydym yn uchelgeisiol

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a rydym bob amser yn ceisio gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a’n gilydd.


Personal Child Health Record
Please keep this book safe

# Disgrifiad rôl

Rhennir rôl y Cadeirydd yn bum maes allweddol – **Strategaeth**, **Pobl**, **Partneriaethau**, **Llywodraethu ac Atebolrwydd**, a **Ffocws ar ganlyniadau a chyflawni**. Rhaid i holl weithgareddau a phenderfyniadau'r Cadeirydd gael eu llywio gan werthoedd yr NMC o fod yn deg, yn garedig, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol ar gyfer yr NMC a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.





| Mae pum parth rôl y cadeirydd yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y paragraffau isod. Gyda'i gilydd maent yn darparu disgrifiad rôl. | Mae'r priodoleddau angenrheidiol i gyflawni pob un o bum parth rôl y cadeirydd wedi'u nodi isod. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r fanyleb person ar gyfer rôl y cadeirydd. |
|---|---|
| **Strategaeth** | |
| Yn eu rôl **arweinyddiaeth strategol**, y Cadeirydd sy'n gyfrifol am:<br>• sicrhau bod y Cyngor yn llywio ac yn goruchwylio cyflawniad gweledigaeth, gwerthoedd, a strategaeth yr NMC trwy reoleiddio, cefnogi a dylanwadu'n effeithiol<br>• sicrhau, lle bo modd, bod cyfeiriad strategol yr NMC yn adlewyrchu ac yn ymatebol i newidiadau mewn polisi cenedlaethol a datganoledig<br>• sicrhau bod y Cyngor yn nodi'r risgiau mewnol ac allanol allweddol sy'n wynebu'r NMC, yn pennu ei ymagwedd a'i agwedd at y risgiau hynny ac yn sicrhau bod y rheolaethau angenrheidiol ar waith i'w galluogi i gael eu lliniaru'n effeithiol. | Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod yn **arweinydd strategol cryf** gyda:<br>• profiad o arwain sefydliadau cymhleth i gyflawni gweledigaethau hirdymor, strategaethau a darpariaeth ar raddfa fawr i boblogaeth eang<br>• profiad o arwain sefydliadau i gyflawni trawsnewidiad diwylliannol sylweddol a/neu ddatblygiad sefydliadol<br>• gwerthfawrogiad cadarn o rôl pedair gwlad yr NMC fel rheoleiddiwr DU gyfan a dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau a pholisïau ar draws pedair gwlad Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon<br>• profiad o lywio cymhlethdod gwleidyddol, i wneud synnwyr o amgylcheddau heriol a newidiol. |

## Llywodraethu/Atebolrwydd

Yn ei rôl fel **arweinydd** y Cyngor, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:

- dal y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r tîm Gweithredol i gyfrif am gyflawni amcanion strategol yr NMC
- arwain, cefnogi a herio'r Weithrediaeth wrth gyflawni ei gwaith
- sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, yn gweithredu o fewn ei fframwaith rheoleiddio ac yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau fel elusen gofrestredig
- gwneud yn si r bod y Cyngor ar y cyd ac yn unigol yn cyflawni ei rôl, yn herio'n briodol, ac yn adlewyrchu gwerthoedd yr NMC yn ei holl weithredoedd a phenderfyniadau
- sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y materion strategol pwysig a'r risgiau allweddol y mae'n eu hwynebu, gan ystyried amgylchedd gweithredu presennol yr NMC
- sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybodaeth gywir, o ansawdd uchel, yn amserol ac yn glir, bod y systemau sicrwydd cysylltiedig yn addas at y diben a bod llif da o wybodaeth rhwng y Cyngor, ei bwyllgorau ac uwch reolwyr
- sicrhau bod gan y Cyngor y cydbwysedd ac amrywiaeth gywir o brofiadau, sgiliau ac arbenigedd
- arwain ar ddatblygiad parhaus aelodau'r Cyngor, Swyddogion Cyswllt a'u gwybodaeth am y sefydliad a'r amgylchedd ehangach y mae'n gweithredu ynddo
- sicrhau bod yr NMC yn ymatebol i adborth mewnol ac allanol ac yn ymdrin â phryderon chwythu'r chwiban yn briodol.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn **hynod fedrus yn y rôl, gyda gwybodaeth a phrofiad o llywodraethu ac atebolrwydd cryf, ac ymrwymiad iddynt**, gyda:

- profiad bwrdd anweithredol blaenorol mewn sefydliad o gymhlethdod a/neu broffil cyfatebol, a maint a graddfa darpariaeth gwasanaeth
- y gallu i geisio a defnyddio'r wybodaeth gywir i graffu, herio a dwyn i gyfrif mewn ffordd adeiladol
- profiad o gadeirio neu reoli sgyrsiau cymhleth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gydlynol, hwylusol a cholegol
- gwerthfawrogiad o'r ystyriaethau pwysig o drawsnewid yn Fwrdd Unedol.

## Pobl

Drwy osod y naws gywir ar gyfer y Cyngor, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am helpu i **lunio diwylliant sefydliadol** drwy:

- darparu arweiniad gweladwy wrth ddatblygu diwylliant iach, agored, cynhwysol a thryloyw ar gyfer y sefydliad a sicrhau bod hyn, a gwerthoedd yr NMC - teg, caredig, cydweithredol ac uchelgeisiol - yn cael eu modelu yn eu hymddygiad eu hunain ac yn ymddygiad y Cyngor ac yn ei holl weithgareddau
- darparu arweiniad gweladwy ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sicrhau bod yr NMC yn deg ac yn gynhwysol yn ei waith
- arddangos a hyrwyddo Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a'r safonau uchaf o ran moeseg, uniondeb a gonestrwydd
- sicrhau bod y naws o'r brig yn adlewyrchu'r diwylliant y mae cydweithwyr, y cyhoedd, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr yn ei ddisgwyl
- arddangos arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, yn arbennig drwy ddarparu cymorth, arweiniad a chyngor i'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r tîm Gweithredol.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol rhaid i'r Cadeirydd fod yn **gyfathrebwr rhagorol sy'n canolbwyntio ar bobl** gyda:

- ymrwymiad gwirioneddol i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac i'n cydweithwyr, sy'n llywio popeth a wnânt
- ymrwymiad amlwg i arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, wedi'i harwain gan werthoedd
- profiad o greu/cynnal diwylliant o ddiogelwch seicolegol o fewn y byrddau y maent wedi'u cadeirio'n flaenorol
- y gallu i gefnogi a herio'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd wrth iddynt adeiladu tîm gweithredol i sicrhau'r trawsnewid diwylliannol a'r gwelliannau cyflawni sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol
- y gallu i ddwyn swyddogion anweithredol a swyddogion gweithredol i gyfrif am eu hymddygiad a'u perfformiad yn eu rolau arweinyddiaeth unigol a chyfunol
- y gallu i ddod ag ymdeimlad o ddynoliaeth a charedigrwydd i'w rhyngweithiadau ag eraill a meithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedus ar bob lefel, y tu mewn a'r tu allan i'r NMC
- dealltwriaeth ac ymrwymiad gwirioneddol ac amlwg i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sicrhau bod sefydliadau'n deg ac yn gynhwysol yn eu gwaith.

## Partneriaethau

| | |
|---|---|
| Yn eu rôl fel **llysgennad**, cymryd rôl arweiniol yn natblygiad **perthnasoedd** a **gweithio mewn partneriaeth**, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:<br>• **Allanol:** cynrychioli'r sefydliad, datblygu a hwyluso partneriaethau cryf, a hyrwyddo gweithio ar y cyd, system gyfan, trwy ymgysylltu â'r pedair gweinyddiaeth, rhanddeiliaid, partneriaid, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gymryd ymagwedd cynhyrchu ar y cyd lle bo'n briodol<br>• **Mewnol:** cynrychioli'r Cyngor i gydweithwyr ar draws y sefydliad, cymryd ymagwedd amlddisgyblaethol at ymgysylltu a bod yn arweinydd gweladwy a hygyrch<br>• **Ym mhob gwaith partneriaeth,** sicrhau bod trafodaeth y Cyngor yn cael ei llywio gan farn partneriaid, rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd a chydweithwyr. | Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod â'r **ymrwymiad a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill**, a arddangosir gan:<br>• awydd cryf a gallu profedig i ymgysylltu a meithrin cydweithio â'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a chydweithwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol<br>• profiad o reoli gwrthdaro a meithrin consensws ar draws grwpiau diddordeb amrywiol<br>• hanes o sicrhau darpariaeth trwy gydweithio. |

## Canolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawni

Yn ei rôl fel **catalydd ar gyfer newid**, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:

- bod yn uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar fynd ar drywydd pwrpas craidd yr NMC o ddiogelu'r cyhoedd, drwy gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio craidd a hybu hyder yn y proffesiynau, gan sicrhau bod yr uchelgais hwn yn cael ei adlewyrchu yn holl waith y Cyngor a'r sgyrsiau mawnt yn eu cael fel Cadeirydd
- ysgogi cyflawni canlyniadau drwy ddwyn eraill i gyfrif am gyflawni
- sicrhau bod y Cyngor yn cael ei friffio'n dda ar yr holl faterion perthnasol – e.e. polisi, diwygio rheoleiddio, partneriaethau, a thueddiadau cymdeithasol – a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Cyngor
- meithrin diwylliant sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol sy'n galluogi arloesi a dysgu, drwy fod yn allblyg, hyrwyddo arloesi a'r defnydd o dechnoleg, a gwreiddio newid cynaliadwy drwy fusnes a thrafodaeth y Cyngor
- mynd ar drywydd gwelliannau mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sicrhau bod yr NMC yn deg ac yn gynhwysol yn ei waith
- sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ffocws di-ildio ar welliant parhaus yr NMC.

Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, rhaid i'r Cadeirydd fod â **hanes o gyflawni drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawni**, wedi'i gefnogi gan:

- awydd cryf a gallu profedig i ymgysylltu â phwrpas yr NMC a chyflawni'r canlyniadau cynaliadwy gorau i'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr
- dealltwriaeth dda o reolaeth sefydliadol - gan gynnwys rheolaeth ariannol - gyda'r gallu i gydbwyso amcanion cystadleuol ansawdd, perfformiad gweithredol ar raddfa, a chyllid yn effeithiol
- y gwytnwch sydd ei angen i barhau i ganolbwyntio ar ddiben craidd yr NMC a chyflawni ei amcanion allweddol tra'n cydbwyso gwelliant parhaus trwy newid trawsnewidiol
- y gallu i ysgogi cyflawni canlyniadau drwy ddwyn eraill i gyfrif.



# Cymwyseddau asesu

**Byddwn ni'n defnyddio'r cymwyseddau canlynol i asesu ymgeiswyr. Mae'r rhain yn adlewyrchu y pum parth allweddol a bydd yn eich helpu i benderfynu a oes gennych y rhinweddau cywir i fod ein Cadeirydd newydd.**

Bydd angen i chi esbonio yn eich datganiad ategol sut mae eich arbenigedd, profiad, gwybodaeth a sgiliau yn cyfateb i bob un o'r cymwyseddau. Byddwn ni'n asesu'ch cais yn erbyn y cymwyseddau ar bob cam o'r broses ddethol.

Bydd angen i chi arddangos eich bod yn bodloni'r holl gymwyseddau. Sylwch y gallwch ddarparu tystiolaeth o'r cymwyseddau hyn o unrhyw agwedd ar eich bywyd, profiadau a gweithgareddau, nid dim ond trwy eich rolau proffesiynol neu waith.

**C1 Arweinydd strategol cryf:**

- profiad o arwain sefydliadau cymhleth i gyflawni gweledigaethau hirdymor, strategaethau a darpariaeth ar raddfa fawr i boblogaeth eang
- profiad o arwain sefydliadau i gyflawni trawsnewidiad diwylliannol sylweddol a/neu ddatblygiad sefydliadol
- gwerthfawrogiad cadarn o rôl pedair gwlad yr NMC fel rheoleiddiwr DU gyfan a dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau a pholisïau ar draws pedair gwlad Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- profiad o ddehongli ac adlewyrchu tirweddau gwleidyddol a pholisi ehangach
- y gallu i lywio cymhlethdod gwleidyddol a gwneud synnwyr o amgylcheddau heriol a newidiol

**C2 Hynod fedrus yn y rôl, gyda gwybodaeth a phrofiad o lywodraethu ac atebolrwydd cryf, ac ymrwymiad iddynt:**

- profiad bwrdd anweithredol blaenorol mewn sefydliad sy'n cyfateb ymhlethdod, a/neu broffil, maint a graddfa darpariaeth gwasanaeth
- y gallu i ddefnyddio gwybodaeth i graffu ar ganlyniadau, eu herio, eu dwyn i gyfrif a llywio canlyniadau mewn ffordd adeiladol
- profiad o gadeirio neu reoli sgyrsiau cymhleth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd gydlynol, hwylusol a cholegaidd
- gwerthfawrogiad o'r ystyriaethau pwysig o drawsnewid yn Fwrdd Unedol

**C3 Canolbwyntio'n ardderchog ar bobl: cyfathrebwr gyda phrofiad o newid trawsnewidiol:**

- dealltwriaeth ac ymrwymiad gwirioneddol ac amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a sicrhau bod sefydliadau yn deg ac yn gynhwysol yn eu gwaith
- y gallu i gefnogi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i adeiladu tîm gweithredol i sicrhau trawsnewid diwylliannol a gwelliannau cyflawni
- ymrwymiad amlwg i arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, wedi'i harwain gan werthoedd
- y gallu i ddod ag ymdeimlad o ddynoliaeth a charedigrwydd i'w rhyngweithio ag eraill a meithrin perthnasoedd cydweithredol ac ymddiriedus ar bob lefel, y tu mewn a'r tu allan i'r NMC
- profiad o greu/cynnal diwylliant o ddiogelwch seicolegol o fewn y byrddau a gadeiriwyd gennych yn flaenorol

**C4 Ymrwymiad a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill:**

- awydd cryf a'r gallu profedig i ymgysylltu a meithrin cydweithio â'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr a chydweithwyr i gyflawni canlyniadau
- profiad o reoli gwrthdaro a meithrin consensws ar draws grwpiau diddordeb amrywiol
- hanes o sicrhau darpariaeth trwy gydweithio

**C5 Hanes o gyflawni trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a chyflawni:**

- awydd cryf a'r gallu profedig i ymgysylltu â phwrpas yr NMC a chyflawni'r canlyniadau cynaliadwy gorau i'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr
- dealltwriaeth dda o reolaeth sefydliadol - gan gynnwys rheolaeth ariannol - gyda'r gallu i gydbwyso'r amcanion cystadleuol o ansawdd, perfformiad gweithredol, a chyllid yn effeithiol
- y cydnerthedd sydd ei angen i barhau i ganolbwyntio ar ddiben craidd yr NMC a chyflawni ei amcanion allweddol wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen am welliant trwy newid trawsnewidiol
- y gallu i ysgogi cyflawni canlyniadau drwy ddwyn eraill i gyfrif

# Gwybodaeth ychwanegol

**Ymrwymiad amser**

Rydym yn rhagweld ymrwymiad amser o dri diwrnod yr wythnos.

Ond rydym am fod yn onest ac yn realistig y gallai fod angen mwy o amser wrth i chi setlo i mewn i'r rôl ac yn dibynnu ar y materion sy'n ein hwynebu. Mae'r ymrwymiad amser hwn yn cynnwys paratoi ar gyfer, a chadeirio, cyfarfodydd a digwyddiadau eraill ac ystod eang o weithgareddau eraill. Os byddwch yn gwneud cais, bydd disgwyl i chi gadarnhau eich bod yn gallu ac yn fodlon cyflawni'r ymrwymiad amser hwn.

Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd a Seminarau'r Cyngor yn Llundain neu ar-lein, ond gellir cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau hefyd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru, a rhannau eraill o Loegr. Mae amserlen cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2025-2026 i'w gweld **yma**.

Mae'n bwysig eich bod ar gael i fynychu cyfarfodydd y Cyngor a Seminarau.

**Cydnabyddiaeth Ariannol**

Y lwfans y cytunwyd arno ar hyn o bryd ar gyfer y Cadeirydd yw £78,000 y flwyddyn.

Mae lwfansau yn amodol ar ddidyniadau cymwys ar gyfer treth incwm TWE a chyfraniadau yswiriant gwladol.

Byddwch hefyd yn cael eich ad-dalu am gostau teithio rhesymol a threuliau parod a dynnir ar fusnes yr NMC, yn unol â pholisi teithio a threuliau'r Cyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety ar gyfer holl aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd.

Mae hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer y rheini sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.

**A fyddaf yn derbyn hyfforddi a datblygu?**

Mae pob aelod newydd a benodir gan y Cyngor yn cael cyflwyniad cynhwysfawr i waith y Cyngor a'r NMC, yn ogystal â chyfleoedd parhaus ar gyfer datblygu yn unigol ac ar y cyd.

### Cymhwystra

Bydd angen i chi wirio a ydych yn gymwys i gael eich penodi ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso. Mae'r rhesymau dros anghymhwyso person rhag cael eu penodi i'r Cyngor i'w gweld yn y **ffurflen wybodaeth**.

Mae'r rôl yn agored i leygwyr a chofrestryddion.

I fod yn ymgeisydd lleyg:

- Rhaid i chi beidio â bod, neu erioed wedi bod, yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig; a
- Rhaid i chi allu cadarnhau nad oes gennych gymwysterau a fyddai'n eich galluogi i wneud cais i fod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig.

I fod yn ymgeisydd cofrestredig:

- Rhaid i chi ddal cofrestriad cyfredol gyda'r NMC heb unrhyw gyfyngiad ar eich ymarfer a bod yn fodlon cynnal eich cofrestriad tra'n gwasanaethu ar y Cyngor, gan gynnwys ail-ddilysu yn ôl yr angen.
- Ni ddylai'ch cofrestriad gyda'r NMC ddod i ben ar unrhyw adeg yn ystod eich cyfnod yn y swydd, neu ni fyddwch yn gallu parhau fel Cadeirydd mwyach. Wrth ystyried a ydych am wneud cais am y rôl hon, bydd angen i chi felly ymrwymo i gynnal eich cofrestriad drwy gydol tymor llawn eich penodiad.

### Anghymhwysiadau

Cyn gwneud cais i fod yn aelod o'r Cyngor, mae angen i chi fod yn siŵr nad ydych wedi'ch anghymhwyso rhag cymryd swydd fel aelod o'r Cyngor neu wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn Ymddiriedolwr Elusen. Fel rhan o'ch cais, yn adran 5 o'r **ffurflen wybodaeth**, bydd gofyn i chi gadarnhau hyn. Mae'r rhesymau dros anghymhwyso person rhag cael eu penodi i'r Cyngor i'w gweld **yma**. Darllenwch y wybodaeth hon yn ofalus cyn i chi wneud cais.

Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw faterion yn ymwneud â hyder y cyhoedd, cymhwystra, neu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, datganwch y wybodaeth neu fuddiant neu gofynnwch am gyngor gan Helen Howard yn **hhoward@hunter-healthcare.com** a fydd yn gwirio ag Ysgrifenyddiaeth yr NMC os oes angen.

### Defnydd o wybodaeth bersonol

Rydym yn cydnabod y gallech fod am wybod sut y byddwn ni'n defnyddio ac yn diogelu'ch gwybodaeth bersonol. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio at ddibenion y penodiadau hyn. Disgrifir y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr **hysbysiad preifatrwydd** hwn. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich holl wybodaeth bersonol a byddwn ni'n gwneud hynny yn unol â chyfraith diogelu data, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Fel y nodwyd yn gynharach, byddwn ni'n cynnal ein gwiriadau cefndir ein hunain yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gennych.

### Hyder y cyhoedd

Mae uniondeb a chynnal saith egwyddor bywyd cyhoeddus yn hanfodol i'r rôl hon. Os gwyddoch am unrhyw faterion proffesiynol neu bersonol a allai achosi embaras neu ddwyn anfri ar yr NMC neu'r Cyfrin Gyngor, datganwch y rhain yn adran 4a o'r **ffurflen wybodaeth**.

Fel rhan o'ch cais rydym yn gofyn i chi a oes gennych unrhyw euogfarnau troseddol heb eu disbyddu. Os cewch eich penodi'n Gadeirydd, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi ddarparu gwiriad datgelu sylfaenol gan Wasanaeth Datgelu a Gwahardd y DU (DBS) (a elwid gynt yn Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)).

Sylwch y byddwn ni'n cynnal gwiriadau cefndir trylwyr gan gynnwys cynnal chwiliadau ar-lein o gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill. Byddwn ni hefyd yn cael tystlythyrau cyn y cyfweliad. Os canfyddir unrhyw faterion, bydd angen i ni archwilio'r rheini gyda chi yn ystod y broses ddethol.

Os byddwch chi'n cyrraedd y cam cyfweliad olaf, gofynnir i chi am dystiolaeth ddogfennol o'ch hawl i fyw a gweithio yn y DU ar ffurf eich pasbort neu ddogfennaeth debyg.

### Am ba mor hir y caf fy mhenodi?

Bydd y tymor cychwynnol am gyfnod o dair blynedd.

Fel y crybwyllwyd, mae cynigion diwygio rheoleiddiol disgwyliedig y llywodraeth yn golygu bod y Cyngor presennol ar fin newid i fodel bwrdd unedol, yn fwyaf tebygol ar ddiwedd 2025 neu ddechrau 2026. Efallai y bydd angen rhai newidiadau i aelodaeth y Cyngor o ganlyniad ac efallai y bydd eich tymor cychwynnol yn newid. Yn amodol ar ddiwygio rheoleiddio a pherfformiad boddhaol a barn y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich ailbenodi am dymor pellach.

### Gwrthdaro Buddiannau

Fel rhan o'ch cais gofynnir i chi ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch gwirioneddol neu bosibl y gellid ei ystyried yn berthnasol i'r NMC. Darllenwch y canllawiau **yma**.

## Cwynion

Rydym wedi ymrwymo i brosesau a gweithdrefnau sy'n deg, yn dryloyw ac yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Bydd cwynion am unrhyw agwedd ar y broses benodi ar gyfer rôl y Cadeirydd yn cael eu monitro, eu cofnodi, a'u trin yn brydlon.

Os ydych yn anhapus ag unrhyw agwedd ar y broses benodi, byddwn ni'n ceisio datrys eich pryderon yn gynnar ac, beth bynnag, o fewn mis i'r hysbysiad o benderfyniadau'r Cyfrin Gyngor.

Os oes gennych g yn, gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, drwy e-bost at Ysgrifennydd y Cyngor **matthew.hayday@nmc-uk.org**.

Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith ag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith.

Yn dilyn ymchwiliad gan yr Ysgrifennydd, os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch ofyn i'r Ysgrifennydd atgyfeirio eich cwyn i Gadeirydd y Panel Dethol am ystyriaeth ac ymateb. Bydd eich cwyn yn cael ei chydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith gydag amser ymateb targed o 20 diwrnod gwaith.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar yr ymateb ar ôl i chi fynd drwy'r llwybrau hyn, gallwch godi'ch pryder gyda Swyddfa'r Cyfrin Gyngor yn **enquiries@pco.gov.uk**.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ei aelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu a'r gweithwyr proffesiynol y mae'n eu rheoleiddio. Rydym yn gwybod y bydd cael lleisiau, safbwyntiau, gwybodaeth a mewnwelediad gwahanol yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Bydd y Panel Dethol yn gweithredu'n gadarnhaol. Mae hyn yn golygu, lle mae'r Panel Dethol yn fodlon bod dau neu fwy o ymgeiswyr o'r un teilyngdod, gall benderfynu argymell ymgeisydd â nodwedd warchodedig.

Er mwyn cyflawni ein nod o fod yn sefydliad cynhwysol, rydym yn gofyn i chi gwblhau ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth a fydd yn cael ei gwahanu oddi wrthi eich cais ar ôl ei dderbyn. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni ar gyfer monitro amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r rhai a benodwyd i'n Cyngor yn unig. Ni fyddwn yn ei ddefnyddio yn y broses ddethol, ac eithrio os bydd camau cadarnhaol yn cael eu cymryd a dim ond crynodeb lefel uchel ar ffurf ddienw y bydd ein Panel Dethol yn ei weld fel na fydd modd eich adnabod. Bydd y wybodaeth yn dweud wrthym a allai ein prosesau fod yn effeithio'n annheg ar rai grwpiau. Efallai y bydd angen i ni rannu data dienw â'r Panel Dethol, y Cyfrin Gyngor a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

# Sut i wneud cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **09.00 ddydd Llun 25 Tachwedd 2024**.

Bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno:

- Datganiad yn nodi pam eich bod yn addas ar gyfer y rôl (dim mwy na dwy dudalen). Gwnewch yn si  r eich bod yn dweud sut rydych yn bodloni'r cymwyseddau a nodir ar dudalennau 16 ac 17.
- Eich CV (dim mwy na thair tudalen).
- Y **ffurflen wybodaeth** wedi'i chwblhau: rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau adran cydraddoldeb ac amrywiaeth y ffurflen os gwelwch yn dda.

Dylid anfon pob cais at: **applications@hunter-healthcare.com**. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod. Mae'n ddrwg gennym ond ni fyddwn yn gallu ystyried ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yngl  n â'r uchod neu os hoffech ragor o wybodaeth am y rôl a'r broses ddethol, cysylltwch â Rhiannon Smith neu Jenny Adrian ar 07939 250362 neu **jadrian@Hunter-Healthcare.com**.

## Y broses ddethol

Rydym wedi ymrwymo i brosesau dethol sy'n hygyrch, yn deg, yn dryloyw, yn seiliedig ar deilyngdod ac yn rhydd rhag rhagfarn a gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae'r Cyngor wedi penodi Panel Dethol i gynnal y broses. Bydd y broses ddethol yn cael ei harwain gan dystiolaeth ac ar bob cam byddwch yn cael eich asesu yn erbyn y cymwyseddau a nodir ar dudalennau 16 ac 17.

Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad ar gyfer penodi i'r Cyfrin Gyngor.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am gynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch a all fod yn hyderus yn ein proses ddethol, yn seiliedig ar wybodaeth ddienw am ein proses.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn ni'n talu costau teithio a llety rhesymol. Byddwn ni'n darparu unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer teithio a llety ar gyfer ymgeiswyr sy'n feichiog neu sydd ag anabledd dros dro neu barhaol.



### Aelodau'r Panel Dethol

Aelodau'r Panel Dethol yw:

- **Syr David Behan**
  Cadeirydd y Panel (annibynnol)
- **Dr Lynne Wigens OBE**
  Aelod Cofrestredig o'r Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor
- **Anna Walker CB**
  Aelod lleyg o'r Cyngor ac Is-Gadeirydd y Cyngor
- **Eileen McEneaney MBE**
  Aelod Cofrestredig o'r Cyngor
- **Radhika Seth**
  Aelod Annibynnol

## Crynodeb o ddyddiadau allweddol

| | |
|---|---|
| Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw | 25 Tachwedd 2025 |
| Llunio rhestr hir | 9 Rhagfyr 2024 |
| Llunio rhestr fer | 14 Ionawr 2025 |
| Cyfweliadau | 31 Ionawr 2025 |

# Y broses ymgeisio

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 24 Hydref 2024 | **Ceisiadau'n agor** |
| 09:00 ar 25 Tachwedd 2024 | **Ceisiadau'n cau**<br>Bydd ceisiadau ond yn ddilys os byddwn ni'n derbyn pob un o'r canlynol:<br>● Datganiad ategol<br>● CV<br>● **Ffurflen wybodaeth** wedi'i chwblhau<br>Rydym hefyd yn annog ymgeiswyr yn gryf i lenwi a dychwelyd ein ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>**Sicrhewch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn yr amser cau, gan na allwn ystyried ceisiadau hwyr.**<br>Ar y pwynt hwn, byddwn ni'n gwirio pob cais dilys:<br>● I gadarnhau cymhwystrar;<br>● I gadarnhau nad yw ymgeiswyr wedi'u hanghymhwyso o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) a chyfraith elusennau; ac<br>● I nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y gallai fod angen ei drafod. |
| 25 Tachwedd i 2 Rhagfyr 2024 | **Cam sifftio rhagarweiniol**<br>Bydd yr Ymgynghorwyr Chwilio yn cynnal asesiad rhagarweiniol o'r holl geisiadau yn erbyn y cymwyseddau. |
| 9 Rhagfyr 2024 | **Cam Rhestr Hir y Panel Dethol**<br>Bydd y Panel Dethol yn adolygu'r holl geisiadau a'r asesiad rhagarweiniol a wneir gan yr Ymgynghorwyr Chwilio yn erbyn y cymwyseddau.<br>Bydd y Panel Dethol wedyn yn penderfynu pa ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad rhagarweiniol gyda'r Ymgynghorwyr Chwilio. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am ganlyniad y cam hwn cyn gynted ag y gallwn ni. |
| 10-20 Rhagfyr 2024 | **Cam Cyfweliad Rhagarweiniol**<br>Bydd yr Ymgynghorwyr Chwilio yn cynnal cyfweliadau rhagarweiniol gyda'r holl ymgeiswyr ar y rhestr hir yn erbyn y cymwyseddau.<br>Rydym yn gobeithio y bydd modd cynnal y cyfweliadau rhagarweiniol hyn yn bersonol ond, os yw teithio'n gyfyngedig o hyd a chadw pellter cymdeithasol mewn grym, cynhelir cyfweliadau rhithwir. |

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| **14 Ionawr 2025** | **Cam Rhestr Fer y Panel Dethol**<br>Bydd y Panel Dethol yn adolygu canlyniad yr holl gyfweliadau rhagarweiniol yn erbyn y cymwyseddau.<br>Bydd y Panel Dethol wedyn yn penderfynu ar y rhestr fer o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad terfynol. |
| **15 i 24 Ionawr 2025** | **Gwiriadau cyn cyfweliad**<br>Bydd yr ymgynghorwyr chwilio a'r NMC yn:<br>• Cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar eich hanes proffesiynol a pherson (gan gynnwys gwiriadau cyfryngau cymdeithasol); a<br>• Chymryd tystlythyrau ysgrifenedig gan eich canolwyr enwebedig. |
| **15 i 24 Ionawr 2025** | **Camau Terfynol**<br>Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, gofynnir i chi fynychu trafodaethau gydag:<br>• Aelodau'r Cyngor nad ydynt ar y Panel Dethol<br>• Tîm gweithredol<br>• Cadeiryddion ein rhwydweithiau staff a chynrychiolwyr cyflogeion Unsain<br>**Sylwch y bydd adborth strwythuredig o'r sesiynau hyn yn cael ei roi i Gadeirydd y Panel Dethol a gellir ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio ar gyfer cyfweliadau terfynol. Ni fydd unrhyw ymgeiswyr yn cael eu diystyru o'r broses o ganlyniad i'r trafodaethau hyn.**<br>**Sylwch nad yw'r trafodaethau hyn yn ffurfio unrhyw ran o'r broses ddethol.**<br>Byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad terfynol. |
| **31 Ionawr 2025** | **Cyfweliad Terfynol y Panel Dethol**<br>Bydd cyfweliad y Panel Dethol yn parhau am oddeutu 60-90 munud a bydd yn canolbwyntio ar gwestiynau yn erbyn y cymwyseddau. Efallai y gofynnir i chi roi cyflwyniad ar bwnc a ddewisir gan y Panel ac, os felly, byddwch yn cael rhybudd ymlaen llaw o hyn.<br>Yn dilyn cyfweliadau, bydd y Panel Dethol yn penderfynu pwy ddylai gael ei argymell i'w benodi i'r Cyfrin Gyngor. |
| **Canol Chwefror 2025** | **Penderfyniad y Cyfrin Gyngor ar y penodiad**<br>Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y Cyfrin Gyngor yn ysgrifennu atoch yn cynnig y penodiad.<br>Byddwn ni'n hysbysu ymgeiswyr aflwyddiannus cyn gynted â phosibl a byddwn yn rhoi adborth os gofynnir amdano. |

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
23 Portland Place
Llundain W1B 1PZ

**www.nmc.org.uk**

@nmcnews







Floor 2, Berkshire House
168-173 High Holborn, London WC1V 7AA

T: 020 7935 4570
E: enquiries@hunter-healthcare.com